# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD DYDD GWENER, 13 CHWEFROR 2026

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Richard Jones (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Owen (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol:** Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych), Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC),Hedd Vaughan Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid – Cyngor Gwynedd) Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Cyngor Gwynedd), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Cyngor Gwynedd), Iain Taylor (AMION Consulting), Adam Graham (Uwch Swyddog Trafnidiaeth – Uchelgais Gogledd Cymru), Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig), ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth – Cyngor Gwynedd)

**Eraill a wahoddwyd:** David Bithell (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, Cadeirydd Is bwyllgor Trafnidiaeth Strategol CBC y Gogledd).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych), Neal Cockerton (Cyngor Sir Fflint) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r

budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig..

## 5. PENODI CYFARWYDDWR PORTFFOLIO - TYNNU RHESTR FER

Adroddodd Alwen Williams (Prif Weithredwr) bod 16 cais wedi dod i lawr. Mynegwyd fod 3 o'r ceisiadau wedi cyrraedd gofynion y swydd.

Cynigwyd ac eiliwyd rhoi tri ymgeisydd ar y rhestr fer.

**PENDERFYNWYD RHOI TRI YMGEISYDD AR RESTR FER CYFWELIADAU SWYDD Y CYFARWYDDWR PORTFFOLIO.**

Wrth ymhelaethu ar y camau nesaf, amlygwyd y byddai'r ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfres o ymarferion ar-lein a chyda seicolegwyr busnes. Ategodd y byddai Canolfan Asesu yn cael ei chynnal. Bydd adborth o ymatebion a pherfformiad yr ymgeiswyr yn yr ymarferion a'r ganolfan asesu yn cael eu cyflwyno ar lafar i'r Cydbwyllgor Corfforedig ar ddiwrnod y cyfweliadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 12:00pm a daeth i ben am 12:45pm

______________________________

**CADEIRYDD**